
Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Craffu ar Gyfrifon 2021-22
## Comisiwn y Senedd

Rhagfyr 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Craffu ar Gyfrifon 2021-22
Comisiwn y Senedd

Rhagfyr 2022

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mabon ap Gwynfor AS**
Plaid Cymru



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Rhys ab Owen AS**
Aelod Annibynnol Plaid Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion ... 5**

**1. Cyflwyniad ... 6**

**2. Perfformiad ariannol a gweithredol ... 7**

Safle cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ... 7

Costau staffio a chyflog ... 8

Cronfa brosiectau ... 10

Effaith y pandemig COVID-19 ... 10

Ein barn ni ... 12

**3. Llywodraethu a risg ... 14**

Strwythur rheoli a threfniadau llywodraethu ... 14

Rheoli risg ... 15

Ein barn ni ... 16

**4. Caffael a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ... 18**

Dangosyddion perfformiad cyffredinol ... 18

Caffael ... 18

Effaith COVID-19 ar gontractau ... 20

Ein barn ni ... 20

**5. Staffio ... 21**

Argymhellion a gwaith craffu blaenorol ... 21

Nifer y staff a chyflogau ... 21

Cyfraddau absenoldeb a throsiant ... 22

Proffil y gweithlu ... 26

Rhywedd ... 27

Ethnigrwydd ... 27

Cefndir economaidd-gymdeithasol is ... 28

Anabledd a bylchau cyflog eraill ... 29

Ymgysylltu a pherfformiad ........ 30

Ein barn ni ........ 30

**6. Cynaliadwyedd ........ 32**

Cyffredinol ........ 32

Plastig untro ........ 33

Ein barn ni ........ 33

**Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar ........ 34**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Hoffai'r Pwyllgor glywed gan y Comisiwn yn flynyddol gyda dadansoddiad o'r prosiectau a weithredwyd fel rhan o'r gronfa brosiectau a'r cyllid a ddyrannwyd i'r prosiectau unigol hyn. Dylid darparu'r wybodaeth hon cyn gwaith craffu blynyddol y Pwyllgor ar Gyfrifon y Comisiwn. ........ Tudalen 13

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y Pwyllgor Sicrwydd Risg, yn benodol mewn perthynas â chynllunio ar gyfer diwygio'r Senedd yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ystyriaethau staffio a chyllido yn y dyfodol. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, cyn craffu ar gyfrifon y flwyddyn nesaf, o'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad o effeithiolrwydd ei ymateb i'r pandemig COVID-19. Dylai'r wybodaeth ddiweddaraf gynnwys manylion am sut y mae effeithlonrwydd, costau, ac arbedion o newidiadau i ffyrdd o weithio a sut y darparwyd gwasanaethau yn ystod y pandemig wedi'u hymgorffori mewn arferion presennol, a sut y mae'r arbedion hyn wedi'u gwneud yn rhai cylchol. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Comisiwn barhau i ddarparu manylion am y contract a ddyfarnwyd i gyflenwyr o Gymru gan y Comisiwn. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r wybodaeth hon gael ei darparu yn ôl maint contract yn y dyfodol, i gynnwys contractau hyd at £10,000, rhwng £10,000 a £50,000, rhwng £50,000 a £100,000 a thros £100,000. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Comisiwn rannu crynodeb o ganlyniadau pob arolwg pwls, pan fyddant ar gael, gyda'r Pwyllgor gan ganolbwyntio ar salwch meddwl, mynegeion salwch meddwl ac absenoldebau staff yn fwy cyffredinol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn edrych ymlaen at adolygu canlyniadau'r arolwg staff blynyddol ar gyfer 2022. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf, pan fydd ar gael, am brosiectau recriwtio staff sydd â'r nod o gynyddu amrywiaeth y sefydliad yn ei gyfanrwydd, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect YMLAEN, ymhlith eraill. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 7.** Dylid rhannu data mewn perthynas ag ymgysylltu yn ystod 2021-22 â'r Pwyllgor, i werthuso effaith adnoddau ymgysylltu ar-lein. Dylai'r Comisiwn ddarparu dadansoddiad o'r mathau o weithgarwch ymgysylltu â'r Pwyllgor a'r rhannau o Gymru sy'n ymgysylltu â'r Senedd neu sy'n ymweld â hi. ........ Tudalen 31

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") yn gorff corfforaethol a'i ddiben yw darparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau y mae ar Senedd Cymru eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Comisiwn ei hun yn cynnwys pum Aelod o'r Senedd, gan gynnwys y Llywydd a phedwar Aelod arall a enwebir gan y grwpiau gwleidyddol mwyaf yn y Senedd. Fel corff corfforaethol, mae'r Comisiwn yn berchen ar eiddo ac yn cyflogi staff i reoli ystâd ac adnoddau'r Senedd, i gefnogi trafodion seneddol ac i ymgysylltu â phobl Cymru.

**2.** Mae cyllideb y Comisiwn yn destun craffu gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae'r gyllideb ar gyfer 2023-24 wedi'i gosod a chraffodd y Pwyllgor Cyllid arni ar 5 Hydref 2022. Yn unol â hynny, oherwydd nifer o faterion trawsbynciol, mae'n debygol y bydd cyfres o faterion tebyg yn cael eu hystyried yn adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid.

**3.** Gosodwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22 y Comisiwn ('y Cyfrifon') yn y Senedd ar 30 Mehefin 2022. Roedd y Cyfrifon yn destun archwiliad a rhoddwyd barn archwilio ddiamod iddynt. Cynhaliwyd yr archwiliad gan Ann-Marie Harkin (Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio), a lofnododd y dystysgrif archwilio a'r adroddiad, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar 30 Mehefin 2022. Roedd yr archwiliad hwn yn ystyried datganiadau ariannol y Cyfrifon a thablau penodedig yn yr Adroddiad Taliadau a'r Adroddiad Staff.

**4.** Ni wnaeth yr archwiliad ystyried gweddill yr Adroddiad Blynyddol, gan nad yw'n destun archwiliad. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Archwilydd ystyried yr adrannau eraill a nodi unrhyw anghysondebau perthnasol gyda'r datganiadau ariannol a'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad. Ni nodir unrhyw faterion o'r fath yn yr adroddiad archwilio.

**5.** Yn ystod blwyddyn ariannol y Cyfrifon, cynhaliwyd Etholiad y Senedd ar 6 Mai 2021. Effeithiwyd ar y busnes hefyd gan effaith barhaus y pandemig COVID-19 yn ystod y flwyddyn ariannol, a adlewyrchir yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

**6.** Clywodd y Pwyllgor gan Manon Antoniazzi (Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd), Ken Skates AS (Comisiynydd y Senedd sy'n gyfrifol am y Gyllideb a Llywodraethu) a Nia Morgan (Cyfarwyddwr Cyllid, Comisiwn y Senedd) ar 6 Hydref 2022. Mae canfyddiadau'r Pwyllgor wedi'u nodi isod.

# 2. Perfformiad ariannol a gweithredol

## Safle cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn

**7.** Mae'r Comisiwn wedi nodi £1.1 miliwn o danwariant cyfanredol yn erbyn cyfanswm ei gyllideb net o £59.4 miliwn, neu 1.9 y cant o'r gyllideb gymeradwy, ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Wrth ystyried yr alldro adnoddau net sy'n ymwneud â gwariant y Comisiwn yn unig (ac eithrio costau Aelodau etholiad a Gwariant a Reolir yn Flynyddol), roedd y tanwariant yn dod i £741,000, neu 1.8 y cant o'r gyllideb gymeradwy.

**8.** Fel rhan o'r cyfrifon hyn, adroddir hefyd ar danwariant o £195,000 ar gyfer costau sy'n ymwneud ag etholiad, sy'n cynrychioli alldro o £1,905,000 yn erbyn cyllideb ddiwygiedig o £2,100,000. Mae'r alldro hwn yn cynnwys gwariant cyfalaf o £506,000 yn erbyn cyllideb sero. Mae'r costau etholiad hyn yn gyllideb wedi'i chlustnodi, gydag unrhyw danwariant i'w ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

**9.** Nododd y Comisiwn hefyd danwariant o £169,000 yn ymwneud â gwaith y Bwrdd Taliadau, yn erbyn cyllideb ddiwygiedig o £15.6 miliwn. Mae'r tanwariant hwn yn gymharol isel o gymharu â blynyddoedd blaenorol (£577,000 yn 2020-21), er bod y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2021-22, a osodwyd gerbron y Senedd ym mis Tachwedd 2022, yn cynnwys ffigur o £16.8 miliwn ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau.

**10.** Mae'r tabl o ffigurau alldro lefel uchel o'r Cyfrifon wedi'i atgynhyrchu isod.

***Tabl 1: Alldro lefel uchel, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22***[1]

| Gwariant Refeniw | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 25,367 | 26,325 | 958 | 26,325 | 958 | 24,833 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 15,007 | 15,090 | 83 | 15,090 | 83 | 16,373 |
| **Gwariant refeniw gros** | **40,374** | **41,415** | **1,041** | **41,415** | **1,041** | **41,206** |
| Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso | (61) | (220) | (159) | (220) | (159) | (50) |

[1] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22, tudalen 152

| Gwariant Refeniw | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant refeniw net** | **40,313** | **41,195** | **882** | **41,195** | **882** | **41,156** |
| Gwariant cyfalaf* | 641 | 500 | (141) | 500 | (141) | 418 |
| **Alldro adnoddau net (gwariant y Comisiwn)** | **40,954** | **41,695** | **741** | **41,695** | **741** | **41,574** |
| Cyflogau a lwfansau Aelodau a chostau cysylltiedig | 15,450 | 16,819 | 1,369 | 15,619 | 169 | 15,595 |
| Costau cysylltiedig â'r etholiad - refeniw | 1,399 | 2,600 | 1,201 | 2,100 | 701 | 352 |
| Costau cysylltiedig â'r etholiad – cyfalaf* | 506 | - | (506) | - | (506) | 119 |
| **Alldro adnoddau** | **58,309** | **61,114** | **2,805** | **59,414** | **1,105** | **57,640** |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | 1,660 | 1,800 | 140 | 1,800 | 140 | 1,992 |
| **Cyfanswm alldro adnoddau net** | **59,969** | **62,914** | **2,945** | **61,214** | **1,245** | **59,632** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad. *Cyfanswm y gwariant cyfalaf yw £1,147,000 (£537,000 yn 2020-21)

**11.** Mae'r Pwyllgor yn nodi fel a ganlyn:

- Tanwariant o £83,000 ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â staff, neu 0.6 y cant.
- £159,000 yn llai o incwm nag yn y gyllideb.
- Gorwariant o £141,000 mewn gwariant cyfalaf. Dylid nodi bod ffigur cyfalaf ar wahân o £506,000 wedi'i wario ar gostau etholiad, a nodir uchod.

## Costau staffio a chyflog

**12.** Roedd tanwariant o £958,000, neu 3.6 y cant, ar gyflogau staff y Comisiwn a chostau cysylltiedig. Ysgrifennodd y Comisiwn at y Pwyllgor ar 13 Mehefin 2022, gan gynnwys awgrym yn y llythyr bod £250,000 o'r tanwariant yn ymwneud â chronni hawl i wyliau heb eu defnyddio gan staff y Comisiwn, ar 31 Mawrth 2022. Roedd y ffigur gwirioneddol £100,00 yn is na'r

gyllideb. Roedd y Comisiwn wedi clustnodi £150,000 yn ei gyllideb i liniaru unrhyw gynnydd pellach mewn lefelau.

**13.** Pan ofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Cyllid am ragor o wybodaeth am y dadansoddiad o'r tanwariant staffio cyffredinol, dywedodd wrth y Pwyllgor fod gweddill y ffigur yn ymwneud â swyddi gwag mewn staffio[2], gyda ffigur o £1 miliwn yn y gyllideb ar gyfer hyn. Bu'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar y ffigur hwn a gyllidebwyd yn ystod y gwaith craffu ar Amcangyfrif y Comisiwn, ac eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid fod y ffigur hwn wedi'i ddefnyddio ers nifer o flynyddoedd i adlewyrchu trosiant naturiol mewn swyddi gwag, tra'n cydnabod y cynnydd yn nifer y swyddi gwag yn ystod 2021-22[3]. Pan gafodd ei holi ynghylch rhesymau dros y cynnydd mewn swyddi gwag, dywedodd:

> *"…it was partly due to unexpected vacancies and the difference in patterns of staffing during the pandemic that we experienced. But, also, a portion of that was due to the active management of capacity and vacancies by the executive board in order to assess the future budgets and demand on the overall extent of the budget. As we got through the financial year, it became evident to us that, in future years, the budget might come under pressure from things like Senedd reform, so we did slow down the recruitment of vacancies at certain points during the year. So, this was to ensure that we were in a position to understand the pressures in future years, and not staffing up in posts where maybe the finance would need to be prioritised in other areas."*[4]

**14.** Nododd hefyd fod prinder ymgeiswyr wedi bod yn broblem, mewn rhai meysydd, yn ogystal ag oedi wrth fetio ymgeiswyr. Disgrifiodd y Prif Weithredwr a'r Clerc amser heriol o ran recriwtio ond ailddatganodd y pwynt ynghylch cynnal hyblygrwydd ac asesu'r llinell sylfaen ar gyfer staffio, cyn yr her sydd i ddod o ran diwygio'r Senedd[5].

**15.** Roedd y Pwyllgor hefyd yn cwestiynu cyfran y gwyliau heb eu defnyddio yn y Comisiwn.

> *"We did have a very busy year… with the preparation for the new Senedd term, and we found that staff were in some cases unable to take leave. There was also an element of staff preferring not to take leave when the coronavirus restrictions were at their height. Obviously, we have been working closely with colleagues to encourage people to take leave for well-being purposes…we're seeing things already returning to*

[2] Cofnod y Trafodion [paragraff 35], 6 Hydref 2022
[3] Cofnod y Trafodion [paragraff 149], Pwyllgor Cyllid, 5 Hydref 2022
[4] Cofnod y Trafodion [paragraff 36], 6 Hydref 2022
[5] Cofnod y Trafodion [paragraff 39], 6 Hydref 2022

> *a more normal pattern, and in this current year we're on track to bring the leave levels down to a pre-pandemic level, even though we have allowed staff slightly longer to catch up with the untaken leave from the previous year."*[6]

## Cronfa brosiectau

**16.** Pan holwyd Cyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn ynghylch y defnydd o danwariant, nododd ei fod yn cynnal cronfa brosiectau, gyda thanwariant yn cael ei adolygu i weld a all gyfrannu at unrhyw waith a wneir drwy'r gronfa. Gwneir y gwaith monitro hwn drwy werthuso rhagolygon, a adroddir yn fisol i Fwrdd Gweithredol y Comisiwn. Dyrennir yr arian ar sail ymarfer blaenoriaethu prosiectau, a gynhelir yn flynyddol. Pe bai unrhyw gyllid dros ben, nododd y Comisiwn y byddai'n cyflwyno Cyllideb Atodol, gyda chyllid dros ben yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.[7]

**17.** Roedd y gronfa brosiectau a geir yn y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2021-22 wedi'i lleihau'n sylweddol, felly defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r tanwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw i ariannu prosiectau blaenoriaeth ychwanegol.[8] Trafodir y defnydd o'r gronfa brosiectau ar gyfer prosiectau cynaliadwyedd yn Adran 6 yr adroddiad hwn. Mae prosiectau eraill a ariannwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gwelliannau TGCh, system feddalwedd Legislative Workbench, uwchraddio'r system gyllid ac adnoddau ymgysylltu ar-lein.[9]

## Effaith y pandemig COVID-19

**18.** Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o bryd i'w gilydd am yr arbedion a'r costau ychwanegol yr aethpwyd iddynt mewn perthynas â'r pandemig. Yn fwyaf diweddar ysgrifennodd y Comisiwn at y Pwyllgor ar 13 Mehefin 2022, i grynhoi rhai o'r arbedion a'r costau perthnasol hyn o 2021-22. Darparodd y Comisiwn hefyd fanylion am y tanwariant a'r penderfyniadau a wnaed i ailddyrannu'r tanwariant hwn, mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor ar ôl craffu ar eu Cyfrifon yn 2020-21. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2021-22 wedi'u hatgynhyrchu yn y tabl isod.

[6] Cofnod y Trafodion [paragraff 41], 6 Hydref 2022
[7] Cofnod y Trafodion [paragraff 60], 6 Hydref 2022
[8] Cofnod y Trafodion [paragraff 61], 6 Hydref 2022
[9] Cofnod y Trafodion [paragraffau 66-67], 6 Hydref 2022

***Tabl 2: Arbedion/Costau uwch yn erbyn y Gyllideb, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22***[10]

| Arbedion yn erbyn y Gyllideb | 2020-21 (£) | 2021-22 (£) |
|---|---|---|
| Llai o gostau cyfleustodau | 130,000 | 125,000 |
| Costau Heddlu a Diogelwch | 175,000 | 72,000 |
| Costau teithio staff | 150,000 | 121,000 |
| Gwariant y Comisiwn yn ymwneud ag Aelodau* | 168,000 | 168,000 |
| Costau cyfieithu allanol | 47,000 | 76,000 |
| Addysg a Digwyddiadau | 78,000 | 202,000 |
| Argraffu a chostau llythyru | 117,000 | 222,000 |
| Lletygarwch | 31,000 | 22,000 |
| Hyfforddiant a Recriwtio | 89,000 | - |
| **Cyfanswm** | **985,000** | **1,008,000** |

* yn cynnwys e.e. hyfforddiant i Aelodau, deunydd ysgrifennu a chostau ymgysylltu rhyngwladol. Ariennir y cyfan o gyllideb weithredol y Comisiwn.

| | 2021-22 (£) |
|---|---|
| Arbedion yn erbyn y gyllideb yn unol â Thabl 4 | 1,008,000 |
| Dibrisiant | (150,000) |
| Gwariant sy'n fwy na'r gyllideb: | |
| ▪ Glanhau | 26,000 |
| ▪ Gwasanaethau cwmwl | 118,000 |
| ▪ Ymgynghoriaeth a chostau cyfreithiol | 49,000 |
| ▪ Archifo | 29,000 |
| ▪ Band eang | 55,000 |
| ▪ Recriwtio | 24,000 |

[10] Llythyr gan y Clerc a Phrif Weithredwr, Comisiwn y Senedd, 13 Mehefin 2022

| | **2021-22 (£)** |
|---|---|
| ▪ Gwaith cynnal a chadw a drefnwyd/ymatebol | 37,000 |
| Llai o incwm - net o'r costau | 28,000 |
| **Cyfanswm** | **792,000** |

**19.** Fel y dangosir uchod, nododd cyllidebau gwasanaeth y Comisiwn £1.0 miliwn o arbedion neu gostau is yn 2021-22, i fyny £23,000 o 2020-21. Caiff yr arbedion hyn eu gwrthbwyso gan gostau gwasanaeth uwch o £366,000 a dibrisiant o £150,000, gan arwain at ostyngiad net o £792,000 yng ngwariant meysydd gwasanaeth yn 2021-22. Rhyddhawyd £950,000 pellach o'r gyllideb staffio hefyd.

**20.** Holodd y Pwyllgor y Comisiwn ynghylch yr arbedion costau a gyflawnwyd yn ystod y pandemig a'r rhai y gellid eu hystyried yn rhai a allai fod yn ailddigwydd yn y dyfodol. Dywedodd y Prif Weithredwr a'r Clerc wrth y Pwyllgor, er bod costau cyfleustodau a chostau teithio staff wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y pandemig, roedd costau cyfleustodau bellach wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig, er bod chwyddiant costau yn ffactor yn hynny o beth. Mae costau teithio staff wedi aros ar lefel is a'r gobaith oedd y byddai'r rhain yn parhau'n is, wrth iddynt archwilio ffyrdd ystwyth newydd o weithio[11]. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"In terms of our engagement budgets, there was a moderate increase in the year in question because it was a year of elections to the Welsh Youth Parliament, even though we weren't able to do much face-to-face engagement. That is now, in the current year, returning more to normal, and we're investing in online tools. So, we're trying to keep sight of the benefits that we realised during the pandemic years of being able to reach harder-to-reach audiences by online means. I think the other decrease that we noted was in printing, stationery and postage, and that, I hope, again, will be something that we can keep at a lower level as people get used to corresponding in different ways and we learn those lessons from the time of the restrictions."*[12]

## Ein barn ni

**21.** Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed bod tanwariant yn destun gwerthusiad trylwyr, gydag ailfuddsoddiad yn cael ei ddyrannu i wella gwasanaethau i staff ac Aelodau. Byddai'r Pwyllgor yn

[11] Cofnod y Trafodion [paragraff 46], 6 Hydref 2022
[12] Cofnod y Trafodion [paragraff 47], 6 Hydref 2022

croesawu rhagor o wybodaeth yn flynyddol am unrhyw brosiectau a ariennir drwy'r gronfa brosiectau ac, at ddibenion tryloywder, yr arian a ddyrennir ar gyfer y cynlluniau hyn.

**22.** Croesewir sylwadau'r Comisiwn am arbedion yn ystod y pandemig COVID-19, a'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i hynny. Mae'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i barhau i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cynnal yr arbedion hyn, drwy fentrau megis ymgysylltu ar-lein a gweithio'n ystwyth i liniaru costau trafnidiaeth. Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei gynnydd yn y meysydd hyn.

**Argymhelliad 1.** Hoffai'r Pwyllgor glywed gan y Comisiwn yn flynyddol gyda dadansoddiad o'r prosiectau a weithredwyd fel rhan o'r gronfa brosiectau a'r cyllid a ddyrannwyd i'r prosiectau unigol hyn. Dylid darparu'r wybodaeth hon cyn gwaith craffu blynyddol y Pwyllgor ar Gyfrifon y Comisiwn.

# 3. Llywodraethu a risg

## Strwythur rheoli a threfniadau llywodraethu

**23.** Ar ôl Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, mabwysiadodd y Comisiwn gyfres o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau cymorth wedi'u diweddaru[13]. Cadwodd Bwrdd Gweithredol Comisiwn y Senedd y cyfrifoldeb dros reoli'r ymateb i'r pandemig COVID-19, gyda'r opsiwn i uwchgyfeirio at y Llywydd pe bai penderfyniadau gwleidyddol neu arwyddocaol.

**24.** Sefydlwyd grŵp Cydnerthedd a Monitro Covid (CRAM) i gefnogi'r Bwrdd Gweithredol drwy fonitro newidiadau i reoliadau COVID-19 a gwerthuso eu heffaith[14]. Rhoddwyd trefniadau amgen ar waith yn ystod Etholiadau'r Senedd, gyda chyfnod diddymu byrrach.

**25.** Yn ystod y flwyddyn ariannol, ymddeolodd David Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd ar gyfer y Comisiwn. Arweiniodd hyn at ad-drefnu'r cyfarwyddiaethau o fewn y Comisiwn, a ddaeth i rym ym mis Medi 2021[15]. Roedd hyn yn cynnwys:

- y Gwasanaeth TGCh a Darlledu yn symud o Adnoddau i Gyfathrebu ac Ymgysylltu;
- y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau yn symud o Gyfathrebu ac Ymgysylltu i'r Gyfarwyddiaeth Fusnes;
- y tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn symud o Adnoddau i'r Gwasanaethau Cyfreithiol o fewn y Gyfarwyddiaeth Busnes.

**26.** Mae swydd y Prif Gynghorydd Cyfreithiol wedi bod yn wag ers 31 Mai 2019. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae Huw Williams o Geldards LLP wedi darparu cymorth ar sail ymgynghori, ar gost o £104,000 yn 2021-22, i lawr o £120,000 yn 2020-21[16].

**27.** Pan ofynnwyd a oedd y Prif Weithredwr a'r Clerc yn fodlon ar y system bresennol o uwch-reolwyr yn y Comisiwn, a'i digonolrwydd i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol, ymatebodd:

> *"Mi rydw i'n hapus bod gyda ni bensaernïaeth nawr sy'n cael ei gynllunio i flaengynllunio. Felly, mi fyddwn ni, drwy gyfrwng y prosiect dulliau gweithio, yn tynnu at ei gilydd lawer o'r gwaith rŷn ni wedi'i wneud yn ystod y pandemig yn edrych ar ffyrdd newydd chwim a hyblyg o weithio, ynghyd â strategaeth ar gyfer yr ystâd, ac*

[13] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22, tudalen 113
[14] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22, tudalennau 116 a 119
[15] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22, tudalen 115
[16] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22, tudalen 139

> *ein strategaeth pobl ni. Mi fyddwn ni yn gobeithio, drwy gyfrwng y prosiect yna, edrych ar ein hadnoddau staff ni yn symud ymlaen."*[17]

## Rheoli risg

**28.** Mae'r Cyfrifon yn nodi'r risgiau corfforaethol a nodwyd gan y Comisiwn[18] a'u heffaith ar ei nodau a'i flaenoriaethau strategol. Mae hefyd yn nodi meysydd a nodwyd i'w datblygu ac unrhyw gynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn. Roedd y gofrestr risg ar gyfer 2021-22 yn nodi'r prif themâu a ganlyn:

- Y Coronafeirws;
- Seiberddiogelwch;
- Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Comisiwn y Senedd);
- Urddas a pharch;
- Newid cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â'r DU.

**29.** Ychwanegwyd y risgiau a ganlyn yn ystod y flwyddyn ariannol:

- Diwygio'r Senedd;
- Fframwaith Rheoleiddio;
- Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Aelodau o'r Senedd).

**30.** Cadarnhaodd y Prif Weithredwr a'r Clerc y bydd adolygiad y Comisiwn o effeithiolrwydd eu hymateb i'r pandemig COVID-19 wedi'i orffen erbyn diwedd tymor yr hydref 2022 ac ymrwymodd i ddarparu copi o'i ganfyddiadau i'r Pwyllgor[19].

**31.** Holodd y Pwyllgor y Comisiwn ynghylch ei barodrwydd cyffredinol i ymateb i risg na chyfeiriwyd ato yn yr adroddiad, a darparwyd enghreifftiau gan gynnwys datganoli cyfiawnder i Gymru a'r broses o ddiddymu Cyfraith Ewropeaidd a ddargedwir, ynghyd â'r heriau a nodir uchod.

**32.** Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr a'r Clerc wrth y Pwyllgor:

[17] Cofnod y Trafodion [paragraff 92], 6 Hydref 2022
[18] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22, tudalennau 45-47
[19] Cofnod y Trafodion [paragraff 54], 6 Hydref 2022

> *"Mi rydyn ni'n rhoi tipyn o ymdrech i mewn i'n trefn ni o reoli risg. Mae ein cofrestr risg corfforaethol ni yn ddogfen organig, mae'n ddogfen bwysig, ac ŷn ni'n ei gadw fe dan chwyddwydr ym mhob cyfarfod o'r bwrdd gweithredol sydd gyda ni. Mae gyda ni hefyd help y pwyllgor archwilio risg sydd yn rhoi chwyddwydr arbennig, deep dive, ar risgiau penodol bedair gwaith y flwyddyn. Maen nhw, er enghraifft, wedi ein helpu ni i graffu ar y risg sydd yn ymwneud â diwygio seneddol, nôl ym mis Mehefin eleni. O fewn y risg newid cyfansoddiadol, mae hwnna'n cwmpasu elfennau fel y risg ŷch chi wedi sôn amdano fe, bod yna ardaloedd mawr newydd o gyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r Senedd."*[20]

**33.** O ran capasiti mewnol i ymateb i risg, dywedodd:

> *"Rŷn ni'n adolygu'n capasiti ni yn rheolaidd, ac mae'r Comisiwn wedi'n cyfarwyddo ni i wneud hynny. Mae e wedi digwydd ddwywaith mewn modd gweddol radical yn ystod fy nghyfnod i fel Prif Weithredwr, ac ŷn ni wedi gwneud ymarferiad pellach dros yr haf eleni yn gwneud yn siŵr bod gyda ni'r adnoddau cywir yn y mannau cywir i gwrdd â'r anghenion presennol.*
>
> *Fel rô'n i'n dweud, er ein bod ni yn trio craffu ar y gorwel a gweld beth sy'n dod, allwn ni ddim rhoi adnoddau yn eu lle ar gyfer heriau dŷn ni ddim yn ymwybodol ohonynt. Wrth gwrs, os oes yna fwy o rymoedd yn dod, bydd angen mwy o gapasiti arnom ni fel swyddogion i ateb y galw yna. Ond mae hwnna'n fater o flaengynllunio, fel ŷn ni'n gwneud yn gyson, ac adeiladu'r cynlluniau yna i mewn yn y tymor hir."*[21]

## Ein barn ni

**34.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r heriau y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu o ran recriwtio a nifer y swyddi gwag sydd heb eu llenwi yn y sefydliad. Rydym yn derbyn ei bod yn anodd rhagweld ystyriaethau staffio yn y dyfodol, tra'n rheoli cyllidebau yn y dyfodol, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch diwygio'r Senedd a ffactorau eraill. Mae'r Pwyllgor yn nodi gwaith Pwyllgor Sicrwydd Risg y Comisiwn ac yn ystyried bod ei waith yn hollbwysig.

**35.** Disgwylir canlyniad adolygiad y Comisiwn i effeithiolrwydd ei ymateb i'r pandemig COVID-19 gyda diddordeb, unwaith y daw i ben ar ddiwedd tymor hydref 2022. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu copi o'r adolygiad hwn, cyn y gwaith craffu ar Gyfrifon y flwyddyn nesaf.

[20] Cofnod y Trafodion [paragraff 76], 6 Hydref 2022
[21] Cofnod y Trafodion [paragraffau 80-81], 6 Hydref 2022

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y Pwyllgor Sicrwydd Risg, yn benodol mewn perthynas â chynllunio ar gyfer diwygio'r Senedd yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ystyriaethau staffio a chyllido yn y dyfodol.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, cyn craffu ar gyfrifon y flwyddyn nesaf, o'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad o effeithiolrwydd ei ymateb i'r pandemig COVID-19. Dylai'r wybodaeth ddiweddaraf gynnwys manylion am sut y mae effeithlonrwydd, costau, ac arbedion o newidiadau i ffyrdd o weithio a sut y darparwyd gwasanaethau yn ystod y pandemig wedi'u hymgorffori mewn arferion presennol, a sut y mae'r arbedion hyn wedi'u gwneud yn rhai cylchol.

# 4. Caffael a Dangosyddion Perfformiad Allweddol

## Dangosyddion perfformiad cyffredinol

**36.** Mae'r Cyfrifon yn cynnwys Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol ar gyfer 2021-22[22]. Mae'r adroddiad yn cydnabod effaith y pandemig COVID-19 ar rai o'r Dangosyddion hyn, yn enwedig o ran gweithgareddau ymgysylltu seneddol rhyngwladol a nifer y dysgwyr Cymraeg mewnol. Mae Dangosyddion ar gyfer y Senedd newydd wedi'u diwygio, yn dilyn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, a bydd adroddiad ar y canlyniadau am y tro cyntaf yng Nghyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2022-23.


## Caffael

**37.** Argymhellodd y Pwyllgor, fel rhan o'i waith craffu ar Gyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2020-21, y dylai'r Comisiwn rannu ei gontract caffael, er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o gael ceisiadau gan gwmnïau llai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, i gynyddu gwariant ar gyflenwyr llai o Gymru.[23] Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan y Comisiwn[24] a chytunwyd i roi diweddariad bob chwe mis ar y cynnydd.

**38.** Nododd y Cyfrifon gynnydd mewn gwariant gyda chyflenwyr o Gymru dros y flwyddyn ariannol, gyda 45 y cant o wariant y Comisiwn yn mynd i gyflenwyr o Gymru, i fyny 7 pwynt canran o 2020-21 ac yn rhagori ar y targed o 43 y cant am y tro cyntaf.[25] Mae'r tabl o'r Cyfrifon wedi'i atgynhyrchu yn ***Ffigur 1***.

[22] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22, tudalennau 35-43
[23] Craffu ar Gyfrifon 2020-21: Comisiwn y Senedd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
[24] Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd, 2 Chwefror 2022
[25] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22, tudalen 43

***Ffigur 2: Gwariant y Comisiwn gyda chyflenwyr o Gymru (%)***




**39.** Ysgrifennodd y Comisiwn at y Pwyllgor ar 26 Medi 2022 gyda diweddariad pellach, gan nodi bod 9 o'r 15 contract a ddyfarnwyd gan y Comisiwn gwerth dros £25,000 i gyflenwyr o

Gymru.[26] Roedd bron i ddwy ran o dair o wariant y Comisiwn yng Nghymru ar reoli cyfleusterau neu wasanaethau TGCh.

**40.** O ganlyniad i'r llwyddiant cynnar hwn, mae'r Comisiwn wedi gosod targed ymestyn newydd iddo'i hun o 50 y cant, gyda'r nod o gyrraedd y ffigur hwn erbyn diwedd tymor y Senedd hon. Mae llythyr y Comisiwn yn nodi cyfres o strategaethau ar gyfer cyflawni'r nod hwn, gan gynnwys dadansoddi'r farchnad, defnyddio fframweithiau cenedlaethol, egluro prosesau i gyflenwyr, sicrhau bod prif gontractwyr yn rhoi cyfle i gyflenwyr o Gymru yn eu cadwyni cyflenwi ac asesu'r holl adnewyddiadau contract.

## Effaith COVID-19 ar gontractau

**41.** Mae'r Cyfrifon yn adrodd bod y cynnydd mewn gweithgarwch ar y safle yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw wedi arwain at fwy o wariant drwy'r contract arlwyo, o'i gymharu â bron dim gwariant yn ystod 2020-21.[27]

**42.** Yn unol â chyfarwyddiadau Swyddfa'r Cabinet, gwnaed rhai taliadau gan y Comisiwn i gontractwyr yn ystod y pandemig i gefnogi a sicrhau contractau cyflenwi, hyd yn oed yn absenoldeb gwasanaethau. Mae hyn yn berthnasol yn benodol i'r contract arlwyo, gyda £18,000 wedi'i dalu at y diben hwn yn 2021-22, o'i gymharu â £363,000 yn 2020-21.

## Ein barn ni

**43.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Comisiwn am nifer y contractau caffael a ddyfarnwyd i gyflenwyr o Gymru gwerth dros £25,000 a'r targed ymestyn newydd o 50 y cant, i'w gyflawni erbyn diwedd tymor y Senedd hon. Yn unol â hynny, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi diweddariadau parhaus ar gynnydd y Comisiwn.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Comisiwn barhau i ddarparu manylion am y contract a ddyfarnwyd i gyflenwyr o Gymru gan y Comisiwn. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r wybodaeth hon gael ei darparu yn ôl maint contract yn y dyfodol, i gynnwys contractau hyd at £10,000, rhwng £10,000 a £50,000, rhwng £50,000 a £100,000 a thros £100,000.

[26] Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd, 26 Medi 2022
[27] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22, tudalen 43

# 5. Staffio

## Argymhellion a gwaith craffu blaenorol

**44.** Yn ystod gwaith craffu blaenorol ar Gyfrifon 2021-22, argymhellodd y Pwyllgor fod y Comisiwn yn ymchwilio i'r rhesymau dros gynrychiolaeth isel o fewn y gweithlu o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau economaidd-gymdeithasol is.[28] Galwodd y Pwyllgor hefyd ar y Comisiwn i gryfhau ei bolisïau yn y maes hwn ac i gymryd camau i leihau rhwystrau canfyddedig a bylchau cyflog ar gyfer y grwpiau hyn, a grwpiau amrywiol eraill.

**45.** Derbyniwyd yr argymhelliad hwn o ran cymunedau lleiafrifoedd ethnig gan y Comisiwn, a nodwyd yr argymhelliad yn ymwneud â grwpiau economaidd-gymdeithasol is[29]. I gyfiawnhau ei safbwynt mewn perthynas â'r grŵp olaf, dywedodd y Comisiwn:

> *"…mae'r Comisiwn wedi cynnwys data economaidd-gymdeithasol yn ei brosesau recriwtio, a fydd yn darparu dealltwriaeth o amrywiaeth economaidd gymdeithasol y gronfa ymgeiswyr yn y lle cyntaf. Bydd y wybodaeth yn cael ei hadolygu ochr yn ochr â dulliau adrodd blynyddol y Comisiwn ar Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mis Mai 2022."*

## Nifer y staff a chyflogau

**46.** Mae cyfanswm nifer staff y Comisiwn (cyfwerth ag amser llawn) wedi aros yn weddol sefydlog ar ôl cyfnod o dwf, gyda chyfanswm wedi'i nodi o 460.0, gyda nifer cyfartalog o 457.6. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cynnydd yn nifer y staff ers 2017-18[30].

***Tabl 3: Tuedd mewn staffio cyfwerth ag amser llawn, Comisiwn y Senedd***

| | 31-Maw-18 | 31-Maw-19 | 31-Maw-20 | 31-Maw-21 | 31-Maw-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y staff cyfwerth ag amser llawn** | 444.6 | 454.1 | 459.0 | 461.0 | 460.0 |

[28] Craffu ar Gyfrifon 2020-21: Comisiwn y Senedd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
[29] Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd, 2 Chwefror 2022
[30] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2017-18 i 2021-22

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn** | 451.2 | 442.8 | 453.4 | 461.3 | 457.6 |

**47.** Cynyddodd cyflog canolrifol y Comisiwn gan 2.6 y cant yn 2021-22, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd pob aelod o staff yn derbyn o leiaf y Cyflog Byw.

***Tabl 4: Tuedd mewn cyflog canolrifol***

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflog canolrifol** | £33,304 | £34,315 | £37,647 | £38,362 | £39,360 |

## Cyfraddau absenoldeb a throsiant

**48.** Nododd y Comisiwn gynnydd yn ei drosiant staff i 7.21 y cant yn 2021-22, o gymharu â 6.07 y cant yn 2020-21. Mae hyn yn parhau i fod i lawr o'r cyfartaledd pedair blynedd o 9.42 y cant.

**49.** Cynyddodd cyfraddau salwch i 2.69 y cant o 2.07 y cant. Roedd cyfraddau salwch cyn y pandemig yn amrywio rhwng 3.70 y cant a 4.00 y cant.

**50.** Er hynny, cynyddodd absenoldebau yn ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant bron 75 y cant. Yn 2021-22, collwyd 1,453 o ddiwrnodau am resymau iechyd meddwl a llesiant, o gymharu ag 833 o ddiwrnodau a 1,1595.5 diwrnod yn 2020-21 a 2019-20, yn y drefn honno. Cododd cyfran yr holl absenoldebau yn ymwneud ag iechyd meddwl i 47.7 y cant, i fyny o 39.7 y cant yn 2020-21 a 29 y cant yn 2019-20. Pan ofynnwyd am ragor o wybodaeth ynghylch absenoldebau iechyd meddwl fesul grŵp, dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor:

> *"Women are more likely to report sick with mental ill health; the most likely age bracket is 40 to 49 years old; and the grade that's most likely to be affected by mental ill health is our team support, but that's closely followed by grade M2. And then there's also noticeable the difference in terms of the length of service that applies to people who are most likely to be susceptible to mental ill health. So, the length of service where people are most likely to suffer from mental ill health having served in the Commission is between five and 10 years of service."*[31]

[31] Cofnod y Trafodion [paragraff 126], 6 Hydref 2022

**51.** Cynhaliodd y Comisiwn dri arolwg pwls llesiant yn 2021-22, gyda chwestiynau am wahanol bileri Strategaeth Llesiant y Comisiwn (llesiant corfforol, cysylltedd/llesiant cymdeithasol, a llesiant ariannol). Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd asesu agweddau tuag at COVID-19 a gweithio gartref. Y gyfradd ymateb gyfartalog ar draws yr arolygon hyn oedd 66 y cant. Dyma'r canlyniadau:

- Roedd 92 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gysylltiedig â'u tîm.
- Roedd 96 y cant o staff yn teimlo bod eu llesiant o bwys i'w rheolwr llinell.
- Dywedodd 64 y cant o ymatebwyr eu bod wedi dioddef o straen/pryder dros y chwe mis blaenorol.
- Roed 1 o bob 5 yn ystyried bod eu hiechyd meddwl naill ai'n wael neu'n wael iawn.
- Ymatebwyr sy'n ystyried bod ganddynt anabledd, ymatebwyr o leiafrifoedd ethnig ac ymatebwyr dros 60 oed a nododd y sgoriau cyfartalog isaf.
- Roedd 14 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod eu llesiant corfforol yn wael neu'n wael iawn.

**52.** Cynhaliodd y Comisiwn arolwg ar gyfer pob aelod o staff ym mis Tachwedd 2021, gyda chyfradd ymateb o 68 y cant[32]. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi'r canlyniadau hyn ar wahân, gyda'r Prif Weithredwr a'r Clerc yn nodi yn y cyflwyniad:

> *"Bydd y canlyniadau hyn a'r hyn a ddywedant wrthym yn ein helpu i ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau ar gyfer twf wrth i ni edrych tua'r dyfodol, a sicrhau ein bod yn parhau i fod yn ystwyth ac yn ymatebol yn ein Dysgu."*[33]

**53.** Adroddodd y Cyfrifon sgôr hapusrwydd yn y gweithle o 75.5 y cant, ychydig i lawr o 77.2 y cant yn 2020, ond yn uwch na sgôr cywasgwr y Sector Cyhoeddus (70 y cant)[34]. Roedd hefyd yn nodi Sgôr Ymgysylltu o 73 y cant, a oedd unwaith eto uwchlaw meincnod blynyddol Sgôr Canolrif Ymgysylltu'r Gwasanaeth Sifil (68 y cant).

---

[32] Comisiwn y Senedd, Arolwg Pobl Comisiwn y Senedd: Rhagfyr 2021, tudalen 9
[33] Comisiwn y Senedd, Arolwg Pobl Comisiwn y Senedd: Rhagfyr 2021, tudalen 5
[34] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22, tudalen 148

**54.** Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y pum cwestiwn â'r sgôr isaf, gyda thri o'r cwestiynau â'r sgôr isaf yn ymwneud â rheoli[35]:

- Rwy'n credu ei bod hi'n ddiogel herio'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud yng Nghomisiwn y Senedd, sgôr cyfartalog o 56.3 y cant (arolwg blaenorol 61.1 y cant).
- Rwy'n credu bod gan y Tîm Arwain strategaeth glir ar gyfer y dyfodol, sgôr cyfartalog 60.5 y cant (sgôr blaenorol 67.4 y cant).
- Rwy'n teimlo bod Comisiwn y Senedd yn cael ei reoli'n dda yn gyffredinol, sgôr cyfartalog o 64.0 y cant (sgôr blaenorol 69.6 y cant).

**55.** Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc sut y bydd y Comisiwn yn ymateb i hyn, cyfeiriodd at y sgôr hapusrwydd yn y gweithle o 75.5 y cant, sy'n uwch na sgôr cymharydd y Sector Cyhoeddus o 70 y cant. Er hyn, cydnabu'r gostyngiad bychan yn y sgôr, gan egluro:

> *"Mi oedd y pandemig yn newid mawr, ac mae yna fwy o newid yn yr arfaeth. Dyw hwnna ddim i ddweud fy mod i'n diystyru'r canfyddiad o gwbl—mae e'n beth pwysig iawn inni ei ystyried. Dwi'n meddwl ei fod e, fel dwi wedi sôn o'r blaen, yn adlewyrchu teimlad o flinder mawr ymhlith y staff, ac mae hynny hefyd yn cael ei adlewyrchu yn ein hystadegau absenoldeb ni. Mae e'n anodd iawn i reoli timoedd sydd yn wasgaredig yn ddaearyddol, sydd ddim yn y swyddfa yn gyffredinol. Mae'n fwy anodd i sbotio pan dyw cydweithio priodol ddim yn digwydd. So, dwi'n meddwl mai'r ffordd rŷn ni'n ymateb, fel soniais i ynghynt, yw ein bod ni yn rhoi lot o ymdrech i mewn i flaengynllunio fel ein bod ni'n gallu rhoi sicrwydd i staff ynglŷn â'u hamcanion personol nhw o fewn cyd-destun amcanion eu tîm ac amcanion y sefydliad cyfan, ac wedyn gwneud yn siŵr bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n hyblyg fel dyw pobl ddim yn cael eu gorweithio."*[36]

**56.** Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc ynghylch y cynnydd yn y cyfraddau absenoldeb yn ymwneud ag iechyd meddwl, dywedodd fod y cynnydd yng nghyd-destun ffigur absenoldeb cyffredinol llai, ond nad oedd bwriad i hyn, mewn unrhyw ffordd, leihau graddau'r broblem[37]. Aeth ymlaen i ddweud:

---

35 Comisiwn y Senedd, Arolwg Pobl Comisiwn y Senedd: Rhagfyr 2021, tudalen 25
36 Cofnod y Trafodion [paragraff 144], 6 Hydref 2022
37 Cofnod y Trafodion [paragraff 119], 6 Hydref 2022

> *"I think it is something that we have seen as the pandemic goes on. The first year was very hard, but I think the second year has been exhausting and our reserves are depleted. We have been keeping regular—. Every few months, we have a pulse survey and, as you'll see, we've described it in the annual report. That is a way of us trying, without surveying our staff to fatigue, to keep an eye on people's physical and mental well-being and then to supplement that, where we can, with a suite of support that's available, either collectively for teams or anonymously, as people wish. We're now seeing a bit of an improvement recently, so that's encouraging…"*[38]

**57.** Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor fod llawer o wybodaeth a data yn cael eu casglu i archwilio achos yr absenoldebau cynyddol hyn, a fyddai'n hysbysu'r Comisiwn o ran y cymorth y gellir ei gynnig[39]. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"I think, fundamentally, the problem is not unfamiliar to other organisations, that people feel that they're exhausted and, as a result of the ways of working during the pandemic, people feel a little less connected to their peers, which can impact on mental health. All of these factors are being fed into how we respond to the mental health and well-being of staff."*[40]

**58.** Aeth ymlaen i nodi bod ymyrraeth o ran caledi wedi dechrau, i ganiatáu i gyflogeion gael mynediad at flaensymiau cyflog, a oedd yn dangos sut mae'r Comisiwn yn rhagweithiol wrth geisio atal afiechyd meddwl[41]. Darparodd y Comisiwn rywfaint o wybodaeth bellach am ei fentrau i gefnogi staff yn y Cyfrifon, gan gynnwys cymorth Cyfarpar Sgrin Arddangos, gwybodaeth reolaidd am lesiant a sesiynau galw heibio. Ysgrifennodd y Comisiwn at y Pwyllgor yn dilyn y sesiwn graffu gyda rhagor o fanylion am y cymorth sydd ar gael i staff[42], sy'n cynnwys:

- Cynlluniau aberthu cyflog ar gyfer cymorth gyda chostau gofal plant a chostau teithio;
- Y gronfa caledi newydd y soniwyd amdani;
- Taliad cyflog cynnar cyn y Nadolig;

[38] Cofnod y Trafodion [paragraff 119], 6 Hydref 2022
[39] Cofnod y Trafodion [paragraff 122], 6 Hydref 2022
[40] Cofnod y Trafodion [paragraff 123], 6 Hydref 2022
[41] Cofnod y Trafodion [paragraff 124], 6 Hydref 2022
[42] Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd, 25 Hydref 2022

- Yr opsiwn i gymryd rhan mewn cynlluniau aelodaeth sy'n caniatáu mynediad at wasanaethau am gost is, megis Cyngor Chwaraeon y Gwasanaeth Sifil, drwy ddidyniadau cyflog;
- Tudalennau Llesiant Ariannol ar y fewnrwyd, gyda chyfeiriadau at gymorth allanol a chanllawiau ariannol;
- Y Rhaglen Cymorth i Weithwyr, sydd ar gael i'r holl Aelodau, Staff Cymorth yr Aelodau, a staff y Comisiwn. Llinell gymorth am ddim yw hon i helpu gydag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys dyled, straen a phrofedigaeth, ymhlith eraill.

**59.** Pan holwyd y Comisiynydd ynghylch effaith yr argyfwng costau byw ar afiechyd meddwl, dywedodd wrth y Pwyllgor:

> *"I think you're absolutely right in highlighting how dangerous the cost-of-living crisis could be for people right across society, but also within the Commission, given that in the age bracket of 20 to 29 the main cause of mental ill health is anxiety, and then in the age bracket 30 to 39 it's split evenly across anxiety, stress and depression. Anxiety will be, no doubt, exacerbated or intensified as a result of increases in utility costs for households, rising mortgage rates, and so forth. So, in all likelihood, it's going to be that lower age bracket that is going to be most affected by the cost-of-living crisis."*[43]

## Proffil y gweithlu

**60.** Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch amrywiaeth a chynhwysiant, sy'n cynnwys polisïau, camau gweithredu a ffigurau. Mae hefyd yn cyhoeddi dau adroddiad pellach ochr yn ochr â hyn - yr Archwiliad Cyflog Cyfartal, y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a'r Bwlch Cyflog o ran Ethnigrwydd 2021-22 ac Adroddiad Monitro'r Gweithlu a Recriwtio 2021-22. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi ystod o wybodaeth fanwl am broffil gweithlu'r Comisiwn a'i gyflog.

**61.** Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc a oedd y Comisiwn yn fodlon ar y gwaith a wnaed i gynyddu amrywiaeth gweithlu'r Comisiwn, eglurodd er ei bod yn fodlon ar y cynnydd, mae llawer o waith i'w wneud o hyd[44].

[43] Cofnod y Trafodion [paragraff 131], 6 Hydref 2022
[44] Cofnod y Trafodion [paragraff 134], 6 Hydref 2022

## Rhywedd

**62.** Mae'r wybodaeth yn dangos bod gan y Comisiwn weithlu cytbwys o ran rhywedd, ar draws y gweithlu cyffredinol, yn ogystal â'r Bwrdd Gweithredol a'r Grŵp Arweinyddiaeth. Nid oes staff wedi nodi eu bod yn anneuaidd[45].

**63.** Mae cyfran uwch o fenywod yn gweithio'n rhan-amser o gymharu â dynion (27.8 y cant o fenywod ac 8.6 y cant o ddynion)[46]. Mewn perthynas â recriwtio, cynigiwyd 56.6 y cant o swyddi allanol i fenywod[47] a 73.7 y cant o swyddi mewnol[48].

**64.** Mae cyflogau cymedrig a chanolrifol yn uwch ar gyfer menywod na'r bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yn 2021-22 ar -6.5 y cant, i fyny o -5.3 y cant a'r canolrif cyson ar -9.8 y cant[49].

## Ethnigrwydd

**65.** Ysgrifennodd y Comisiwn at y Pwyllgor ym mis Mehefin 2022[50] gyda diweddariad ar ei gynnydd yn erbyn argymhelliad y Pwyllgor ynghylch deall yr hyn sy'n ysgogi cynrychiolaeth isel yn y gweithlu o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau economaidd-gymdeithasol is, yn ogystal â'i bolisïau i leihau rhwystrau i'r rhain a grwpiau amrywiol eraill. Ceir crynodeb o rai o'r gweithgareddau yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**66.** Mae 92.2 y cant o weithlu'r Comisiwn yn nodi eu bod yn wyn, 4.2 y cant o leiafrifoedd ethnig ac roedd yn well gan 3.6 y cant beidio â dweud[51]. Cynyddodd cyfran y ceisiadau allanol gan ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig i 11 y cant yn 2022[52], i fyny o 7.7 y cant yn 2021. Cynigiwyd 7.5 y cant o swyddi allanol a 5.3 y cant o swyddi mewnol i ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig[53].

**67.** Mae'r bwlch cyflog o ran ethnigrwydd, ar sail tâl fesul awr, wedi lleihau ychydig ond mae'n parhau i fod yn arwyddocaol. Y bwlch cyflog cymedrig ar gyfer 2021-22 yw 26.1 y cant, o'i gymharu â 27.8 y cant yn 2020-21, gyda'r bwlch canolrif yn 34.7 y cant, o gymharu â 38.9 y cant

---

[45] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Monitro y Gweithlu a Recriwtio, tudalen 22
[46] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Monitro y Gweithlu a Recriwtio, tudalen 23
[47] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Monitro y Gweithlu a Recriwtio, tudalen 42
[48] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Monitro y Gweithlu a Recriwtio, tudalen 41
[49] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Monitro y Gweithlu a Recriwtio, tudalen 18
[50] Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd, 13 Mehefin 2022
[51] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Monitro y Gweithlu a Recriwtio, tudalen 18
[52] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Monitro y Gweithlu a Recriwtio, tudalen 36
[53] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Monitro y Gweithlu a Recriwtio, tudalen 35

yn 2020-21[54]. Mae'r ffigurau hyn yn uwch nag yr oeddent yn 2019-20, lle adroddwyd ffigurau o 20.9 y cant ar gyfer y bwlch cyflog cymedrig a 23.6 y cant ar gyfer y bwlch cyflog canolrifol.[55]

**68.** Mae Adroddiad Archwilio Cyflogau Cyfartal 2022 yn nodi mai'r prif yrwyr ar gyfer y bylchau hyn yw'r nifer isel o staff o leiafrifoedd ethnig a gyflogir gan y Comisiwn a'r ffaith bod y staff hyn yn tueddu i gael eu cyflogi ar fandiau is y raddfa gyflog. Yn yr adroddiad, maent yn cydnabod ei bod yn anodd mynd i'r afael â thangynrychiolaeth ar lefelau uwch yn gyflym, yn rhannol oherwydd y trosiant isel ar y graddau hyn. Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc ynghylch cynrychiolaeth yr uwch-reolwyr, dywedodd wrth y Pwyllgor:

> *"We're also harnessing the talent of our existing staff. We're trying to make sure that they can develop their pathways effectively and become more senior in the organisation, and arrange for coaching for them and so on."*[56]

**69.** Mae'r llythyr y soniwyd amdano o fis Mehefin 2022 yn nodi y bydd y Cynllun Prentisiaeth yn parhau, gyda chyfle Interniaeth i Raddedigion i ddilyn. Mae'r Comisiwn hefyd wedi partneru â Chymrodoriaeth Windsor i lansio rhaglen interniaeth newydd, YMLAEN, gyda'r bwriad o gynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu i bedwar unigolyn o'r gymuned lleiafrifoedd ethnig. Lansiwyd y rhaglen hon ym mis Mehefin 2022.

### Cefndir economaidd-gymdeithasol is

**70.** Mae Adroddiad Monitro'r Gweithlu a Recriwtio 2021-22 y Comisiwn yn nodi cyfres o newidiadau i'r prosesau recriwtio a dethol, gan gynnwys:

- Ers mis Ebrill 2021, mae'r system recriwtio ar-lein yn cynnwys cwestiynau cefndir economaidd-gymdeithasol y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, gyda'r flwyddyn gyntaf o ddata wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Amrywiaeth.
- Gweithio gydag Undebau Llafur i gyflwyno ein trefniadau monitro economaidd-gymdeithasol i weithlu'r Comisiwn a datblygu cynllun ar gyfer defnyddio a storio'r wybodaeth hon.

**71.** Mae'r Adroddiad Amrywiaeth y sonnir amdano uchod yn nodi, o'r 53 o ymgeiswyr newydd llwyddiannus, fod 50 ohonynt o ysgolion a gaiff eu rhedeg/eu hariannu gan y

[54] Comisiwn y Senedd, Archwiliad Cyflogau Cyfartal, Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, y Bwlch Cyflog o ran Ethnigrwydd a'r Bwlch Cyflog o ran Anabledd, tudalen 11
[55] Comisiwn y Senedd, Crynodeb o Archwiliad Cyflogau Cyfartal 2021, tudalen 7
[56] Cofnod y Trafodion [paragraff 135], 6 Hydref 2022

wladwriaeth, 2 o ysgolion nad ydynt yn y DU ac 1 o ysgol annibynnol.[57] Mae'r Comisiwn yn nodi nad yw'r flwyddyn gyntaf o ddata o'r cwestiynau cefndir cymdeithasol-economaidd yn dangos unrhyw wahaniaeth oddi wrth unrhyw feincnodau cenedlaethol, ac eithrio'r mwyafrif o ymgeiswyr yr oedd galwedigaeth eu tad o gefndir proffesiynol.

**72.** Ar y pwnc hwn, dywedodd y Prif Weithredwr a'r Clerc wrth y Pwyllgor:

> *"We know this committee has, in the past, also been interested in our socioeconomic diversity, and that is something where you'll have seen we have a year's data available now. Our initial analysis of that suggests that we're pretty consistent with national benchmarks, but that data will become richer as we accumulate more of it … we should be able to get some interesting learning from that in due course, and be able to target our recruitment better."*[58]

**73.** O ran lleoliad daearyddol ymgeiswyr, rhestrodd 353 eu lleoliad fel Caerdydd allan o gronfa gyfan o 873, sef 40.4 y cant o'r holl geisiadau[59].

## Anabledd a bylchau cyflog eraill

**74.** Yn ei adroddiad mae'r Comisiwn yn nodi bod 6.3 y cant o'r gweithlu wedi nodi eu bod yn ystyried bod ganddynt anabledd, gydag 84.0 y cant yn nodi eu bod yn ystyried nad oes ganddynt anabledd. Nid yw 9.7 y cant wedi nodi a ydynt yn ystyried bod ganddynt anabledd ai peidio[60].

**75.** Mewn perthynas â'r bwlch cyflog canolrifol, mae'r Comisiwn yn adrodd bod pobl sy'n ystyried bod ganddynt anabledd yn cael yr un tâl â'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Mae pobl sy'n ystyried bod ganddynt anabledd yn cael eu talu 2 y cant yn fwy na'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny wrth edrych ar y gwahaniaeth cymedrig mewn cyfanswm cyflog.

**76.** Mae 4.2 y cant o staff yn ystyried eu bod yn LHDTC+ ac 82.3 y cant fel rhai nad ydynt yn LHDTC+, gyda chyfradd peidio â datgelu o 13.5 y cant. Y bwlch cyflog yw 0.0 y cant ar gyfer cyflog canolrifol a gwrthdro 6.3 y cant ar gyfer y cymedr[61].

[57] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Monitro y Gweithlu a Recriwtio, tudalen 48
[58] Cofnod y Trafodion [paragraff 137], 6 Hydref 2022
[59] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Monitro y Gweithlu a Recriwtio, tudalen 45
[60] Comisiwn y Senedd, Archwiliad Cyflogau Cyfartal, Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, y Bwlch Cyflog o ran Ethnigrwydd a'r Bwlch Cyflog o ran Anabledd, tudalen 10
[61] Comisiwn y Senedd, Archwiliad Cyflogau Cyfartal, Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, y Bwlch Cyflog o ran Ethnigrwydd a'r Bwlch Cyflog o ran Anabledd, tudalen 10

## Ymgysylltu a pherfformiad

**77.** Mae'r Pwyllgor wedi cynnal diddordeb yn ymgysylltiad y Comisiwn â phobl Cymru. Ar ôl craffu ar ei Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23, ysgrifennodd y Comisiwn at y Pwyllgor Cyllid gyda gwybodaeth am ei gynlluniau i gyrraedd carfanau nad ydynt yn draddodiadol yn ymgysylltu â'r Senedd, a oedd yn cynnwys adnoddau ymgysylltu ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â gweithio gyda phwyllgorau i hybu ymgysylltiad â phobl iau[62].

**78.** Roedd Etholiadau'r Senedd a'r ymgyrch gysylltiedig yn un o'r meysydd ymgysylltu yn 2021-22, sef yr etholiad cyntaf yn cynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed. Cynhaliwyd Etholiad Senedd Ieuenctid Cymru hefyd yn ystod y flwyddyn, ym mis Tachwedd 2021, gyda gweithgarwch ymgysylltu ar-lein. Mae'r Cyfrifon yn egluro y bydd gwerthusiad o'r gwaith ymgysylltu ar Etholiad y Senedd yn helpu i lywio'r gwaith ymgyrchu yn y dyfodol.

**79.** Pan holodd y Pwyllgor y Prif Weithredwr a'r Clerc ynghylch defnyddio cynnig ar-lein i gyrraedd ysgolion ac ardaloedd tlotach, nododd:

> *"We've developed a hybrid offer now, and staff have been equipped to have a blend of in-person visits, face-to-face visits, and hybrid tours as well. There is a whole hybrid tour of the Senedd that you can access on the website at the moment, and I think that we've also developed the capability, when we have physical events, that people can take part virtually in those as well. So, it's definitely a good learning that we developed during the pandemic that we can carry forward."*[63]

## Ein barn ni

**80.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus o nodi'r cyfraddau absenoldeb uwch sy'n cael eu cofnodi oherwydd salwch meddwl, yn enwedig o ystyried yr effaith gynyddol y mae hyn yn ei chael ar aelodau benywaidd o staff y Comisiwn. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Comisiwn i gefnogi ei staff, rydym yn parhau i bryderu y gallai'r ffigurau a gofnodwyd yn 2021-22 waethygu oherwydd effaith yr argyfwng costau byw. Yn unol â hynny, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariadau cryno am ganlyniadau arolygon pwls y Comisiwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar y mater cythryblus hwn.

**81.** Rydym yn falch o glywed am y fenter YMLAEN ac yn annog y Comisiwn i werthuso ei ymgyrchoedd recriwtio yn barhaus gyda'r nod o ehangu ei amcanion ac ychwanegu at amrywiaeth ei staff. Er y cydnabyddir bod llawer o waith i'w wneud, mae'r Pwyllgor yn falch o

[62] Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at y Pwyllgor Cyllid, 19 Hydref 2021
[63] Cofnod y Trafodion [paragraff 148], 6 Hydref 2022

nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud i wneud y Senedd yn gynrychiolaeth fwy amrywiol o'r Gymru fodern.

**82.** Croesewir buddsoddiad y Comisiwn mewn adnoddau ymgysylltu ar-lein a'r gobaith yw y bydd y cynnig amgen hwn yn caniatáu i'r Senedd gyrraedd ystod ehangach o gymunedau, yn enwedig ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed mwy am y gwersi a ddysgwyd yn dilyn Etholiad y Senedd a sut y bydd yn dylanwadu ar waith ymgysylltu yn y dyfodol. Yn unol â hynny, byddai'r Pwyllgor yn croesawu data gan y Comisiwn ynghylch nifer y digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd a nifer y rhain a gynhaliwyd ar-lein.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Comisiwn rannu crynodeb o ganlyniadau pob arolwg pwls, pan fyddant ar gael, gyda'r Pwyllgor gan ganolbwyntio ar salwch meddwl, mynegeion salwch meddwl ac absenoldebau staff yn fwy cyffredinol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn edrych ymlaen at adolygu canlyniadau'r arolwg staff blynyddol ar gyfer 2022.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf, pan fydd ar gael, am brosiectau recriwtio staff sydd â'r nod o gynyddu amrywiaeth y sefydliad yn ei gyfanrwydd, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect YMLAEN, ymhlith eraill.

**Argymhelliad 7.** Dylid rhannu data mewn perthynas ag ymgysylltu yn ystod 2021-22 â'r Pwyllgor, i werthuso effaith adnoddau ymgysylltu ar-lein. Dylai'r Comisiwn ddarparu dadansoddiad o'r mathau o weithgarwch ymgysylltu â'r Pwyllgor a'r rhannau o Gymru sy'n ymgysylltu â'r Senedd neu sy'n ymweld â hi.

# 6. Cynaliadwyedd

## Cyffredinol

**83.** Mae Strategaeth Carbon Niwtral y Comisiwn yn cynnwys dull tri cham ar gyfer dod yn Garbon Niwtral erbyn 2030:

- Tymor byr (2021-23) – newid ymddygiad, gwelliannau rheoli busnes, monitro a gwaith parhaus ar oleuadau LED.
- Tymor canolig (2023-26) – aerdymheru, cysylltu â rhwydwaith gwresogi ardal, gosod solar yn y Senedd a Thŷ Hywel.
- Tymor hwy (erbyn 2030) – pympiau gwres ffynhonnell aer ar gyfer dŵr poeth, costau teithio a chynhaliaeth Aelodau o'r Senedd ar gyfer teithio mewn cerbydau trydan yn unig.

**84.** Wedi hynny, darparodd y Comisiwn gopi ysgrifenedig o'i Strategaeth Carbon Niwtral, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021[64]. Mae'r strategaeth hon, ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd: 2021-22, ar gael ar wefan y Senedd.

**85.** Mae'r Cyfrifon yn dangos y tueddiadau pum mlynedd ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnydd o ynni, gwastraff, defnydd dŵr a theithio swyddogol[65]. Mae'r Cyfrifon yn nodi bod crynodeb llawn o'u perfformiad amgylcheddol i'w weld yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd, gyda'r adroddiad diweddaraf ar gael ar wefan y Comisiwn yn ymwneud â 2021-22, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

**86.** Oherwydd effaith y pandemig, mae'n anodd dod i gasgliadau ar berfformiad, gyda dangosyddion ar gyfer 2020-21 yn gostwng yn aruthrol, gyda chynnydd araf yn 2021-22.

**87.** Pan holwyd y Prif Weithredwr a'r Clerc sut yr oedd tanwariant yn cael ei ddefnyddio gan y Comisiwn, dywedodd wrth y Pwyllgor fod prosiectau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd yn cael eu blaenoriaethu, gan ganolbwyntio ar gynyddu effeithlonrwydd ynni.[66] Pan ofynnwyd i'r Prif Swyddog Cyllid ddarparu enghreifftiau o brosiectau newydd yn fwy cyffredinol, nododd brosiect i osod goleuadau swyddfa LED newydd[67].

---

[64] Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd, 25 Hydref 2022
[65] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22, tudalen 100
[66] Cofnod y Trafodion [paragraff 62], 6 Hydref 2022
[67] Cofnod y Trafodion [paragraff 72], 6 Hydref 2022

## Plastig untro

**88.** Argymhellodd y Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar Gyfrifon 2020-21 y dylai'r Comisiwn ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ddwywaith y flwyddyn am y defnydd o blastig untro.[68]

**89.** Nododd ymateb y Comisiwn o fis Chwefror 2022 fod cynwysyddion tecawê yn y ffreutur bellach yn rhydd o blastig a bod cyllyll a ffyrc plastig, biceri dŵr, potiau pwdin a gwellt wedi'u tynnu oddi yno. Cadarnhaodd y sefydliad ei fod yn gweithio gyda'r contractwr i newid unrhyw eitemau a werthir mewn pecynnau plastig, lle mae dewisiadau eraill yn bodoli[69].

**90.** Roedd llythyr mis Chwefror hefyd yn nodi pedwar maes o gynnydd pellach, a darparwyd diweddariad ar gynnydd ym mis Medi 2022[70]. Roedd y llythyr hwn yn nodi bod poteli yfed metel y gellir eu hailddefnyddio wedi'u darparu ar gyfer Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru newydd ac y byddant yn cael eu cyflwyno i staff. Nododd hefyd y byddai ffynhonnau yfed yn cael eu hyrwyddo, gyda mwy o arwyddion yn yr arfaeth.

**91.** Ymchwiliwyd i ddichonoldeb safon rheoli di-blastig ond nid ystyriwyd ei fod yn addas. Ysgrifennwyd hefyd at gyflenwyr mawr ynghylch Cytundeb Plastigau'r DU a'r angen i leihau plastig ar y safle. Roedd y llythyr yn nodi bod y Comisiwn yn cydymffurfio â Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) fel y'i drafftiwyd ac mae'n agored i awgrymiadau ar gyfer gwelliannau pellach.

## Ein barn ni

**92.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu sylwadau'r Prif Weithredwr a'r Clerc ynghylch blaenoriaethu'r gronfa brosiectau a grybwyllwyd eisoes ar gyfer prosiectau cynaliadwyedd, lle bo modd. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio at ei argymhelliad blaenorol ar y gronfa brosiectau ac yn annog y Comisiwn i ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, er mwyn parhau i werthuso effaith y gronfa hon ar brosiectau cynaliadwyedd o fewn y sefydliad.

**93.** Nodir ymdrechion diweddar y Comisiwn i leihau'r defnydd o blastig untro ac mae'r Pwyllgor yn annog y sefydliad i barhau i geisio gwelliannau i hybu'r gwaith hwn, lle bo modd.

---

[68] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2020-21
[69] Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd, 2 Chwefror 2022
[70] Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd, 26 Medi 2022

# Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **6 Hydref 2022** | **Manon Antoniazzi**<br>Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, Comisiwn y Senedd<br>**Ken Skates AS**<br>Comisiynydd y Senedd sydd â chyfrifoldeb dros y Gyllideb a Llywodraethu<br>**Nia Morgan**<br>Cyfarwyddwr Cyllid, Comisiwn y Senedd |